



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Pŵer i arloesi



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 163/2015
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2015

Pŵer i arloesi

Cynulleidfa	Mae'r ddogfen hon wedi ei hanelu at benaethiaid, awdurdodau lleol, cyrff sefydledig, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir (ysgolion cymunedol, sefydledig, gwirfoddol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion meithrin a gynhelir) a chyrff llywodraethu sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Mae'n bosibl y bydd gan ddysgwyr, rhieni a gofawyr, aelodau staff yr ysgol, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi a chonsortia addysg rhanbarthol fuddiant hefyd.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn rhoi cyfarwyddyd ar Bennod 1 (Pwerau i hwyluso arloesedd) o Ran 1 o Ddeddf Addysg 2002 a gychwynnodd mewn perthynas â Chymru ar 27 Chwefror 2015. Diben y canllawiau hyn yw rhoi cyfarwyddyd i ymgeiswyr ar y broses y dylid ei dilyn a'r ystyriaethau cysylltiedig wrth wneud cais i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i hwyluso prosiect arloesol yr ymgeisydd.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Pŵer i arloesi Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ e-bost: Powertoinnovate@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgsgiliau
Dogfennau cysylltiedig	Pennod 1 (Pwerau i hwyluso arloesedd) o Ran 1 o Ddeddf Addysg 2002

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Y pwerau i hwyluso arloesedd	3
Y broses ymgeisio	5
Y broses gymeradwyo	6
Llenwi'r ffurflen gais	7
Adran A: Yr ymgeisydd	7
Adran B: Y prosiect arloesol arfaethedig (“y cynnig”)	8
Adran C: Gwellu safonau addysgol yng Nghymru	8
Adran Ch: Ymgynghori	9
Adran D: Adnoddau	10
Adran Dd: Monitro	10
Adran E: Gwerthuso	10
Adran F: Strategaeth ymadael	11
Adran Ff: Gwybodaeth gyswllt a datganiad	12
Adran G: Ymestyn neu addasu Gorchymyn sydd eisoes yn bodoli	13

Cyflwyniad

Mae ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol sydd â syniadau arloesol ynglŷn â gwella safonau addysgol yn gweld weithiau bod rhwystrau deddfwriaethol yn eu hatal rhag gwneud y newidiadau y maent yn dymuno eu gwneud i'w hymarfer presennol.

Pan fydd hyn yn digwydd mae modd iddynt wneud cais i Weinidogion Cymru atal neu addasu gofynion deddfwriaeth addysg dros dro er mwyn gweithredu dulliau gwaith arloesol a allai (ym marn Gweinidogion Cymru) gyfrannu tuag at wella safonau. Gelwir y pwerau hyn gan Weinidogion Cymru yn bwerau i hwyluso arloesedd.

Statws y canllawiau

Cyhoeddir y canllawiau hyn o dan adrannau 2(6) a 4(1) a (2)(c) o Ddeddf Addysg 2002 ac adran 71 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pan fo corff cymwys¹ yn gwneud cais i Weinidogion Cymru wneud gorchymyn, rhaid iddo ymgynghori â'r personau hynny yr ymddengys iddo ei bod yn briodol ymgynghori â hwy, gan gadw'r canllawiau hyn mewn cof (yn ogystal ag ymgynghori â'r personau, os oes rhai, y mae adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol iddo ymgynghori â hwy).² Mae'r canllawiau hyn hefyd yn egluro'r wybodaeth y mae Gweinidogion Cymru yn mynnu ei bod yn cael ei chynnwys yn y ffurflen gais.

¹ Eglurir y term hwn yn adran 5 isod.

² Adran 4(2)(c). Mae Adran Ch yn adran 5 isod yn ymdrin ag ymgynghori.

Y pwerau i hwyluso arloesedd

Diben pwerau Gweinidogion Cymru yw ei gwneud yn haws gweithredu prosiectau arloesol, am gyfnod penodedig, a allai gyfrannu at wella safonau. Er mwyn gwneud hyn, mae'r pŵer ganddynt, drwy orchymyn, i atal dros dro neu addasu gofynion deddfwriaeth addysg sy'n ymwneud â'r ymgeisydd. Yn benodol, caiff gorchymyn:

- (a) esemptio'r ymgeisydd rhag gofyniad deddfwriaethol ym maes addysg;
- (b) llacio'r modd y gweithredir gofyniad deddfwriaethol ym maes addysg mewn perthynas â'r ymgeisydd;
- (c) caniatáu i'r ymgeisydd arfer swyddogaeth a osodwyd gan ddeddfwriaeth addysg ar gorff arall, un ai yn lle'r corff arall, neu yn ogystal â'r corff arall;
- (ch) gwneud addasiadau eraill i ddeddfwriaeth addysg, sy'n codi o ganlyniad i unrhyw rai o'r darpariaethau uchod, mewn perthynas â'r ymgeisydd neu gorff arall.

Ni chaniateir defnyddio'r pwerau i esemptio rhag mathau eraill o ddeddfwriaeth, er enghraifft deddfwriaeth iechyd a diogelwch neu gyfraith cyflogaeth³.

Mae'r gorchymyn yn caniatáu ar gyfer treialu prosiect arloesol am hyd at dair blynedd, gydag un estyniad posibl o hyd at dair blynedd arall. Ar ôl y cyfnod hwn, rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â chyfraith addysg gyffredinol (fel sy'n gymwys ar y pryd), er y gellid newid y ddeddf ar ryw adeg i fabwysiadu'r addasiad (neu addasiad tebyg iddo) yn fwy eang ac yn fwy parhaol.

Mae'r pwerau i hwyluso arloesedd yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb i gynigion newydd er mwyn gwella safonau fel nad oes yr un cyfle i dreialu syniadau arloesol yn cael ei golli os oes ganddynt y potensial i ysgogi newid ar draws y system a gwella safonau'n fwy eang.

Nid oes unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â'r mathau o gynigion y caiff ymgeiswyr eu cyflwyno. Fodd bynnag, os yw'r cynnig yn ymwneud â darpariaethau Deddf Addysg 2002 ynglŷn â chyflogau ac amodau athrawon (adrannau 119-129), rhaid cael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud gorchymyn.

Wrth ystyried a allai prosiect gyfrannu at wella safonau, rhaid i Weinidogion Cymru wneud y canlynol:

- cadw mewn cof yr angen i gwricwlwm unrhyw ysgol yr effeithir arni gan y prosiect fod yn gwricwlwm cytbwys ac eang sy'n hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesegol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol plant a'r gymdeithas; ac

³ Deddfwriaeth addysg yw'r Deddfau Addysg (a ddiffinnir yn adran 578 o Ddeddf Addysg 1996), Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 ac unrhyw is-ddeddfwriaeth arall (rheoliadau, er enghraifft) a wnaed o dan unrhyw un o'r Deddfau hynny.

- ystyried effaith debygol y prosiect ar yr holl ddisgyblion neu fyfyrwyr y gallai'r prosiect effeithio arnynt.

Dylai ysgolion sy'n ystyried gwneud cais hefyd fod yn ymwybodol y dylai ceisiadau sydd â'r nod o leihau'r amser cyswllt rhwng athrawon a disgyblion gynnwys dadl gref, er mwyn bod yn llwyddiannus, i ddangos sut y byddai'r manteision, o ran gwella safonau addysgol, yn gwneud iawn am golli amser addysgu.

Rhaid i Weinidogion Cymru wrthod cais pan mae'n ymddangos iddynt ei bod yn debygol y byddai'n cael effaith niweidiol ar addysg plant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Y broses ymgeisio

Mae'r pŵer i arloesi yn ei gwneud yn ofynnol i gais gael ei wneud gan "gorff cymwys". Mae Adran 5 o'r canllawiau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am gyrff cymwys ac am lenwi'r ffurflen gais.

Rhaid i'r ymgeisydd lenwi'r ffurflen gais a'i hanfon i'r [blwch post Pŵer i arloesi](#) yn yr Adran Addysg a Sgiliau.

Mae ymgynghori'n rhan annatod o'r broses ymgeisio: mae'n bwysig bod y rhai y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael digon o gyfle i fynegi eu barn. Mae'r canllawiau yn Adran Ch o'r ffurflen gais yn rhoi sylw i ba fath o ymgynghoriad y dylai'r ymgeisydd ei gynnal.

Bydd yr amser y mae Llywodraeth Cymru'n ei gymryd i brosesu cais yn amrywio, a gallai ddibynnu a yw'r cynnig wedi ei ddatblygu'n llawn neu ar nifer y partïon y mae angen ymgynghori â hwy. Er enghraifft, gan ddibynnu ar natur y cynnig, gallai Gweinidogion Cymru ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Gallai Llywodraeth Cymru fod angen gofyn i'r ymgeisydd am fwy o wybodaeth hefyd.

Y broses gymeradwyo

Mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn o ran gwneud gorchymyn ai peidio, ond mae'n rhaid iddynt fod o'r farn bod cynnig yn debygol o gyfrannu at wella safonau cyn gwneud gorchymyn i atal dros dro neu addasu gofynion deddfwriaeth addysg. Rhaid i'r gorchymyn wedyn gael ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a rhaid i 21 diwrnod o leiaf fynd heibio cyn y caiff ddod i rym. Mae'r cyfnod hwn yn rhoi'r cyfle i Aelodau'r Cynulliad archwilio neu herio'r gorchymyn⁴ a hysbysu'r rhai y gallai'r newid effeithio arnynt.

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod pan fydd Gweinidogion Cymru wedi gwneud gorchymyn ond ni fydd modd iddynt ddechrau ar y gweithgaredd arloesol hyd nes y daw'r gorchymyn i rym - pennir y dyddiad hwn gan y gorchymyn a bydd yn ddyddiad sydd o leiaf 21 diwrnod ar ôl gosod y gorchymyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae Deddf Addysg 2002 yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru, gyda chydysniad yr ymgeisydd, allu cynnwys darpariaethau yn y gorchymyn sy'n wahanol i'r rhai y gofynnwyd amdanynt yn y cais.

⁴ Gallai unrhyw Orchymyn a wneir gael ei herio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru hyd yn oed ar ôl i'r cyfnod o 21 diwrnod ddod i ben.

Llenwi'r ffurflen gais

Adran A: Yr ymgeisydd

Gofynnir i chi ddarparu manylion y 'corff cymwys'⁵ sy'n gwneud y cais. Y canlynol yw'r rhai sy'n gymwys i wneud cais i atal dros dro neu addasu'r ddeddfwriaeth addysg sy'n berthnasol iddynt hwy:

- (a) awdurdod lleol,
- (b) corff sefydledig cymwys,
- (c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir neu ffederasiwn o ysgolion a gynhelir,
- (ch) pennaeth ysgol(ion) a gynhelir (gyda chaniatâd y corff llywodraethu),
- (d) corff llywodraethu sefydliad o fewn y sector addysg bellach.

At y dibenion hyn mae 'ysgol a gynhelir' yn golygu ysgol gymunedol, ysgol sefydledig, ysgol wirfoddol, ysgol gymunedol arbennig, neu ysgol feithrin a gynhelir.

Ystyr 'corff sefydledig cymwys' yw corff sefydledig (fel y'i diffinnir yn adran 21(3)(a) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998) unrhyw ysgol sefydledig sydd, at ddibenion yr adran honno, wedi sefydlu corff sefydledig heblaw o dan y Ddeddf honno.

Gofynnir i chi hefyd nodi enw a chyfeiriad/au'r sefydliadau y mae'r cynnig yn berthnasol iddynt. Os mai pennaeth sy'n gwneud cais, ni chaniateir i'r cais ond ymwneud â'r ysgol(ion) y mae'n bennaeth arni/arnynt.

Gan amlaf, dim ond os mai ar yr ymgeisydd y gosodwyd y gofyniad eisoes, neu os mai arno ef y byddai'n cael ei osod (yn achos gorchymyn i ganiatáu i ymgeisydd arfer swyddogaeth corff cymwys arall) y caniateir i orchymyn atal dros dro neu addasu gofynion deddfwriaethol ar gyfer yr ymgeisydd hwnnw. Er enghraifft, os mai ar gorff llywodraethu ysgol neu goleg AB y gosodir gofyniad, y corff llywodraethu sy'n gorfod gwneud cais i'w atal dros dro neu ei addasu; ni chaiff y pennaeth na'r awdurdod lleol wneud cais ar ei ran. Fodd bynnag, caiff gorchymyn wneud addasiadau i ddeddfwriaeth addysg o ganlyniad i'r penderfyniad i atal dros dro neu addasu, a gallai'r darpariaethau canlyniadol hyn fod yn berthnasol i gorff cymwys arall. Hefyd, yn achos corff sefydledig cymwys, caiff wneud cais mewn cysylltiad â'r gofynion sy'n berthnasol i gyrff llywodraethu unrhyw un o'i ysgolion sefydledig, neu bob un ohonynt.

⁵ Rhoddir rhestr gyflawn o gyrff cymwys yn a.1(3) o Ddeddf Addysg 2002 ond nid yw'r holl gyrff a restrir yno yn berthnasol i Gymru.

Caiff mwy nag un corff cymwys gyflwyno cais. Er enghraifft, caiff cyrff llywodraethu unrhyw ysgolion sy'n dymuno gweithio gyda'i gilydd ddatblygu cais ar y cyd. Caiff grwpiau o golegau, neu ysgolion a cholegau, wneud cais ar y cyd hefyd. Pan fo cais yn cael ei wneud ar y cyd, dylai'r ymateb i bob cwestiwn ddangos yn glir pa gorff cymwys y mae'r ymateb yn berthnasol iddo. Bydd angen i bob un o'r ymgeiswyr fodloni'r meini prawf a llofnodi'r ffurflen gais.

Adran B: Y prosiect arloesol arfaethedig (“y cynnig”)

Mae'r adran hon yn gofyn i'r ymgeisydd roi manylion am y prosiect arloesol. Mae'n bwysig bod y syniad a'r effeithiau tebygol yn eglur ac yn ddealladwy.

Dim ond am gyfnod o dair blynedd neu lai y caniateir gwneud gorchymyn. Ar un achlysur yn unig, ceir ymestyn gorchymyn gwreiddiol am hyd at dair blynedd arall. Byddai unrhyw benderfyniad i ymestyn yn cael ei wneud yn ôl disgrisiwn Gweinidogion Cymru a byddai'n ddarostyngedig i'r un ystyriaethau a chyfyngiadau â gorchymyn gwreiddiol. Os ydych chi'n dymuno cael estyniad i orchymyn sydd eisoes yn bodoli, ewch i adran G o'r ddogfen hon.

Gofynnir ichi hefyd ofyn am ddyddiad cychwyn ac egluro eich rhesymau dros dymuno cychwyn ar y dyddiad hwnnw. Er bod modd gwneud cais am ddyddiad cychwyn, dylid nodi y gall unrhyw orchymyn ddarparu ar gyfer dyddiad gwahanol. Mae'n debygol y bydd y dyddiad yn ddibynnol ar amrywiol ffactorau, megis yr amser y bydd yn ei gymryd i Lywodraeth Cymru brosesu eich cais (gall natur y cais a dderbyniwyd a pha un a oes angen mwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd effeithio ar hynny), yr angen i osod gorchymyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a pha un a oes angen mwy o amser cyn i'r gorchymyn ddod i rym, er enghraifft, os dylid rhoi mwy o amser i'r rhai y mae'r gorchymyn yn effeithio arnynt i newid unrhyw drefniadau o'i herwydd.

Wrth ystyried faint o gyfnod sy'n briodol i'r cynnig, mae angen ichi ystyried faint o amser fyddai'n briodol ar gyfer monitro effeithiau'r cynnig, a phryd y byddai'n briodol ei werthuso. Dylid caniatáu unrhyw amser sy'n angenrheidiol hefyd er mwyn cynllunio ar gyfer mynd yn ôl i'r sefyllfa gyfreithiol cyn i'r cyfnod ddod i ben, neu wneud cais am estyniad i'r gorchymyn pe byddai hynny'n briodol.

Dylech nodi'r darn/au penodol o ddeddfwriaeth addysg yr ydych yn dymuno eu hatal dros dro neu eu haddasu, boed yn ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (rheoliadau, er enghraifft) oherwydd eu bod yn atal eich cynnig arloesol rhag symud ymlaen. Efallai yr hoffech gael trafodaeth â'ch cynghorwyr cyfreithiol cyn llenwi'r rhan hon o'r cais.

Adran C: Gwella safonau addysgol yng Nghymru

Wrth ystyried ceisiadau, rhaid i Weinidogion Cymru fod yn fodlon y gallai'r cynnig gyfrannu at wella safonau addysgol yng Nghymru ac, yn benodol, rhaid i'ch cais beidio â bod yn debygol o gael effaith niweidiol ar addysg plant sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Rhaid i'ch cais ddangos yn glir sut, yn eich barn chi, y mae'r cais yn debygol o wella safonau addysgol, a rhaid cynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n cefnogi hynny. Dylech nodi a yw eich cynnig wedi ei dargedu at bob dysgwr ynteu at grwpiau penodol o ddysgwyr. Os mai at grwpiau penodol o ddysgwyr y targedir y cynnig mae'n rhaid ichi ddisgrifio natur y grŵp a sut y byddwch yn nodi pwy ydynt. Dylech ystyried a disgrifio, yn eich cais, yr effaith bosibl ar safonau addysgol pob disgybl neu fyfyrwr y gallai'r cynnig effeithio arnynt, pa un a ydynt yn rhan o'r grŵp targed neu beidio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y posibilrwydd y gallai'r cynnig arwain at ganlyniadau anfwriadol.

Dylai cynigion sicrhau bod cwricwlwm cytbwys ac eang yn parhau i gael ei gynnal i ddysgwyr. Dylai eich cais gynnwys manylion unrhyw effaith ar y cwricwlwm.

Adran Ch: Ymgynghori

Mae ymgynghori'n rhan annatod o'r broses ymgeisio: mae'n bwysig bod y rhai y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn cael digon o gyfle i fynegi eu barn. Mae Gweinidogion Cymru yn annhebygol o gymeradwyo cais os nad ystyrir bod ymgynghoriad digonol wedi ei gynnal.

Yn ddibynol ar yr ymgeisydd a natur y cais, mae rhai cyrff ac unigolion penodol y mae'n rhaid ymgynghori â hwy:

- Ym mhob achos, os yw cais yn cael ei gyflwyno gan gorff llywodraethu ysgol a gynhelir, mae'n rhaid ymgynghori â'r awdurdod lleol perthnasol, ac os yw'r ysgol yn ysgol sefydledig â chorff sefydledig cymwys, rhaid ymgynghori â'r corff sefydledig hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylid ymgynghori â'r pennaeth hefyd.
- Os mai'r awdurdod lleol sy'n gwneud y cais, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylid ymgynghori â'r ysgolion y gallai'r cynnig effeithio arnynt ac unrhyw awdurdodau lleol cyfagos y gallai'r cynnig effeithio arnynt.
- Os mai corff sefydledig cymwys sy'n gwneud y cais, rhaid iddo ymgynghori â chorff llywodraethu pob ysgol sefydledig y mae'r cais yn berthnasol iddi a'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol/ion.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried y dylai ymgeiswyr ymgynghori ag eraill y gallai'r cynnig effeithio arnynt, er enghraifft aelodau staff, cynrychiolwyr undebau llafur, disgyblion, rhieni neu unigolion neu gyrff eraill, fel y bo'n briodol. Os yw eich cynnig yn debygol o effeithio ar ysgolion / colegau eraill dylech roi enwau'r ysgolion / colegau hynny yn ogystal ag enw'r awdurdodau lleol dan sylw.

Rhaid ichi gynnwys manylion y broses ymgynghori a'r canlyniadau yn eich cais. Dylech gynnwys manylion y gwahanol grwpiau o bobl yr ymgynghorwyd â hwy (e.e. aelodau staff / disgyblion / rhieni ac ati), faint o bobl yr ymgynghorwyd â hwy, sut yr ymgynghorwyd â hwy, y cyfnod ymgynghori a'r gyfradd ymateb. Dylai eich cais gynnwys dadansoddiad o ganlyniad yr ymgynghoriad, gan gynnwys crynodeb o'r ymateb gan y cyrff a'r unigolion y mae'n rhaid ymgynghori â hwy. Dylech gyflwyno gwybodaeth am natur a graddfa unrhyw gefnogaeth neu wrthwynebiad i'ch cynnig a'ch ymateb os bu

gwrthwynebiad (e.e. "Roedd x% o blaid y cynnig. Amseru oedd y brif broblem ym marn yr x% a fynegodd bryder, felly cytunwyd i weithredu'r cynnig yn raddol).

Nid oes cyfnod na dull ymgynghori penodol y mae'n rhaid cadw ato, ond rhaid i ymgynghoriad fod yn gynhwysfawr ac yn ystyrlon a dylai pawb y mae'r cynnig yn effeithio arnynt gael cyfle digonol i gyflwyno eu barn. Os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr wybodaeth a gyflwynwyd neu'r ymgynghoriad yn annigonol yn yr amgylchiadau, mae ganddynt hawl i ofyn am fwy o wybodaeth gan yr ymgeisydd.

Adran D: Adnoddau

Rhaid i'ch cais gynnwys manylion unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu, monitro a gwerthuso eich prosiect ac, os yn berthnasol, sut y bydd y costau hyn yn cael eu talu. Os bydd costau'n deillio o'ch prosiect, mae'n bwysig bod cyllid ar gael i dalu am y costau cyfan, a dylai hyn gynnwys cost rheoli strategaeth ymadael.

Mae'n bosibl y byddai eich cynnig yn arwain at arbed adnoddau, ac os felly mae'n bwysig nodi hyn hefyd yn eich cais yn ogystal ag eglurhad o'r modd y byddai'r arbedion hyn yn cael eu hailfuddsoddi.

Adran Dd: Monitro

Rhaid i brosiectau arloesol a hwylusir gan orchymyn gael eu monitro'n ofalus er mwyn asesu eu heffaith ar safonau addysgol. Rhaid ichi ddefnyddio eich prosesau a'ch mesurau eich hun i fonitro a gwerthuso effaith y cynnig a chynnwys manylion y rhain, ynghyd ag amserlenni priodol, yn eich cais.

Bydd disgwyl ichi nodi llinell sylfaen yr ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i fesur newid yn ystod ac ar ôl y cyfnod prawf, a datblygu eich asesiad eich hun o'r effaith. Caiff yr asesiad hwnnw gynnwys targedau ar gyfer y broses ac ar gyfer y canlyniadau.

Adran E: Gwerthuso

Mae'n bwysig gwerthuso prosiectau arloesol sy'n cael eu treialu o dan y pŵer i arloesi, a rhannu unrhyw wersi a ddysgir â'r system ehangach. Ni fydd syniadau arloesol o reidrwydd yn llwyddiannus bob amser, ond gellir defnyddio'r hyn a ddysgir i ddylanwadu ar bolisiau ac ymarfer yn y dyfodol.

Dylai natur a graddfa'r gwerthusiad adlewyrchu maint y prosiect arloesol, a dylai gynnwys archwiliad o'r broses o weithredu'r newid hefyd. Dylech gynnwys disgrifiad bras o'ch strategaeth werthuso.

Wrth wneud cais i dreialu prosiectau arloesol o dan y pŵer i arloesi, rhaid derbyn y bydd unrhyw ganfyddiadau'n cael eu rhannu⁶ â Llywodraeth Cymru

⁶ Byddai hyn yn ddarostyngedig i gyfyngiadau ar rannu data, ac yn cydymffurfio â hwy.

er mwyn asesu effaith y pŵer i arloesi a rhannu gwersi a ddysgwyd ar draws y system ehangach.

Adran F: Strategaeth ymadael

Mae'r pŵer i arloesi yn caniatáu i ymgeiswyr dreialu dulliau gwaith arloesol am hyd at dair blynedd, gyda'r posibilrwydd o un estyniad o dair blynedd ychwanegol.

Mae natur arloesedd yn golygu na fydd pob prosiect yn llwyddo i wella safonau. Mae'n bosibl hefyd na fydd Gweinidogion Cymru yn ceisio mabwysiadu pob syniad yn fwy eang trwy newid y ddeddfwriaeth yn barhaol.

Bydd disgwyl ichi ddangos yn eich cais sut y byddwch yn mynd yn ôl i'r sefyllfa gyfreithiol gyffredinol pan ddaw eich cyfnod prawf i ben. Dylech gynnwys yr holl faterion allweddol y byddai angen eu hystyried er mwyn cyflawni'r trosglwyddiad hwn.

Adran Ff: Gwybodaeth gyswilt a datganiad

Nodwch fanylion yr unigolyn priodol y gellir cysylltu ag ef o ddydd i ddydd mewn cysylltiad â'ch cais. Rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan unigolyn priodol - gweler y tabl isod.

Corff cymwys sy'n ymgeisio	Llofnodwr priodol
Corff llywodraethu ysgol a gynhelir	Cadeirydd y corff llywodraethu
Corff llywodraethu ffederasiwn o ysgolion a gynhelir	Cadeirydd y corff llywodraethu
Pennaeth ysgol(ion) a gynhelir	Y Pennaeth
Corff llywodraethu sefydliad addysg bellach	Cadeirydd y corff llywodraethu (neu rywun mewn swydd gyfatebol)
Corff sefydledig cymwys	Os yw'r corff sefydledig yn gwmni cyfyngedig trwy warant – dylai cyfarwyddwr neu gyfarwyddwr ac ysgrifennydd (yn ddibynnol ar y trefniadau cyfansoddiadol) lofnodi'r cais Os yw'r corff sefydledig yn un anghorfforedig - rhaid i bob ymddiriedolwr unigol lofnodi, oni bai bod gan y corff drefniant lle y caiff un ymddiriedolwr rwymo'r gweddill. Yn yr achos hwnnw, yr un ymddiriedolwr hwnnw fydd y llofnodwr priodol.
Awdurdod lleol	Y Cyfarwyddwr Addysg neu rywun mewn swydd gyfatebol

Sylwer os gwelwch yn dda: gan amlaf, dim ond os mai ar yr ymgeisydd y gosodwyd y gofyniad eisoes, neu os mai arno ef y byddai'n cael ei osod (yn achos gorchymyn i ganiatáu i ymgeisydd arfer swyddogaeth corff cymwys arall) y caniateir i orchymyn atal dros dro neu addasu gofynion deddfwriaethol ar gyfer yr ymgeisydd hwnnw.

Adran G: Ymestyn neu addasu Gorchymyn sydd eisoes yn bodoli

Os oes gorchymyn eisoes wedi ei wneud o dan y pŵer i arloesi ac os hoffech chi i'r gorchymyn gael ei addasu neu ei ymestyn, rhaid ichi gysylltu â Llywodraeth Cymru er mwyn trafod y camau priodol i'w cymryd. Mae angen gwneud cais ychwanegol er mwyn ymgeisio am addasiad neu estyniad.

Mae'r amgylchiadau pryd y byddai estyniad yn cael ei ystyried yn cynnwys:

- a) Pan fo gwerthusiad yn dangos canlyniadau cadarnhaol, ond nad oes cyfrwng amlwg ar gyfer gweithredu newid deddfwriaethol parhaol; neu
- b) Pan fo'r gwerthusiad cychwynnol yn gadarnhaol ond bod angen mwy o amser i fesur effaith lawn y prosiect.

Os derbynnir cais gan gorff cymwys, gellir addasu gorchymyn ar unrhyw adeg o fewn ei gyfnod penodedig er mwyn ymestyn:

- a) Y gofynion neu'r swyddogaethau y mae'r gorchymyn yn berthnasol iddynt
- b) Y corff cymwys y mae'n berthnasol iddo.

Mae gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i wneud gorchymyn arall ar unrhyw adeg sy'n dirymu un cynharach, er enghraifft pe byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar safonau addysgol.